## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Iaith** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15fed o Fawrth 2024** |
| **Teitl:** | **Hybu hyder a hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn y gweithle** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Sôn am ddatblygiadau'r E-Gylchlythyr** |

**Cefndir:**

Un o ddyletswyddau y **Swyddog Polisi Iaith** yw i drefnu gweithgareddau er mwyn hybu a hyrwyddo arloesedd a gwelliant parhaus fel safbwynt o gynyddu'r Gymraeg yn y gweithle. Gall gynnwys gweithgareddau arferol i godi hyder cydweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Ym mis Ionawr creuwyd cylchlythyr electronig i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen. Agorwyd y linc 352 o weithiau.
https://new.express.adobe.com/webpage/4MH8ziwJADuEI.

Yn dilyn trafodaeth gyda Steffan Rees Arweinydd Tim Cered a Huw Owen Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith rydym ni wedi datblygu'r syniad i greu cylchlythyr electronig fydd yn mynd allan ar CERINET yn unig ar ddydd Gwener cyntaf bob mis – **GWENA 'Mae'n ddydd Gwener'.** Mae 'Cylchlythyr Misol' fel hyn yn rywbeth allai fod o fudd i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gweithle ac yn fodd i'r gweithwyr sy'n dysgu Cymraeg gyda Huw ymarfer ei sgiliau gwrando, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Y tro yma fe fyddwn yn adolygu'r cylchlythyr o fewn 4/5 mis drwy greu holiadur byr. Cyhoeddwyd **GWENA 'Mae'n ddydd Gwener'** ar CERINET ar Fawrth y Cyntaf.

**Dyma enghraifft o'r cynnwys:**

Cwis/Posau

Hysbysebu digwyddiadau i hybu'r Iaith/Cymreictod o gwmpas Ceredigion

Sbardun/Achlysur e.e Santes Dwynwen / Dydd Gwyl Dewi / Dydd T.Llew Jones

Podlediadau/Erthyglau

Rhestr chwarae caneuon Cymraeg

Rhestr o lyfrau Cymraeg

Fideos byr a fydd yn gymorth i ynganu geiriau/brawddegau (ac yn atgyfnerthu gwersi Iaith Huw Owen

Prif nod y cylchgrawn yw i hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod mewn amrywiaeth o ffyrdd drwy hybu gweithgareddau CERED – Gigs/digwyddiadau amrywiol a.y.y.b gan sicrhau bod yna linc rhwng Huw y tiwtor, y dysgwyr, siaradwyr llai hyderus, Cymry Cymraeg gweithle Cyngor Sir Ceredigion, CERED a finnau fel Swyddog Polisi Iaith.

**Argymhellion:**
**Parhau i ddatblygu ac esblygu hwn gan werthuso'r adnodd mewn 4 i 5 mis.**

**Atodiadau:**
1. Cylchlythyr Electronig Santes Dwynwen- https://new.express.adobe.com/webpage/4MH8ziwJADuEI

2. Cylchlythyr misol Gwena – Mae'n ddydd Gwener- https://new.express.adobe.com/webpage/pcmiT6SACMuEI

**Enw Cyswllt:**
Carys Lloyd-Jones

**Swyddogaeth:**
Swyddog Polisi Iaith Cyngor Sir Ceredigion

**Dyddiad:**
26/2/2024